



PONTIO (GARTREF AC YN YR YSGOL)

Pum awgrym defnyddiol gan rienni i helpu eich plentyn niwroamrywol i symud rhwng y cartref a'r ysgol



Rhowch Rywfaint o Lonydd Iddynt

Rhowch rywfaint o amser i'ch plentyn ar eu pen eu hunain ar ôl iddynt ddod adref o'r ysgol, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddod at eu hunain ar ôl bod yn yr ysgol ac addasu'n ôl i fywyd gartref.

Cyfathrebu â'r Ysgol

Mae rhannu gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig iawn, felly dylech gyfathrebu ag athro eich plentyn yn rheolaidd. Gallai hyn fod dros e-bost, drwy gyfarfod wyneb yn wyneb, llyfr cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol neu hyd yn oed sgwrs fer yng ngât yr ysgol wrth ollwng neu gasglu eich plentyn.




Trafod Problemau yn Nes Ymlaen

Os oes problemau wedi codi yn ystod diwrnod eich plentyn yn yr ysgol, ac nad yw'r athro wedi llwyddo i ganfod beth sy'n bod, gall helpu cael sgwrs gyda'ch plentyn ynghylch hynny yn nes ymlaen gartref gyda'r nos, pan fyddant wedi ymlacio - "Mae hyn wedi ein helpu ni i ganfod sawl peth sy'n profi'n anodd i'n plentyn, ac yna roedd modd i ni drafod y materion â'r ysgol a gwneud rhywfaint o newidiadau i'w helpu nhw."



Hysbysiad o Newidiadau Ymlaen llaw

Gofynnwch i ysgol eich plentyn roi gwybod i chi neu'ch plentyn ymlaen llaw am unrhyw newidiadau. Er enghraifft, os bydd athro gwahanol yn cyflenwi'r dosbarth neu os bydd yna newid i drefn arferol y diwrnod (e.e. y wers addysg gorfforol ar amser gwahanol i'r arfer).



Tref Foreol

Ar ddiwrnodau ysgol, sicrhewch eich bod yn cadw at yr un drefn foreol, sy'n rhoi digon o amser i chi wneud eich hun yn barod. Gall rhuthro waethygu lefelau gorbryder eich plentyn, a gallai hyn effeithio arnynt am weddill y diwrnod.